**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 27 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 11 Awst 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 6:DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - CAIS AM ADNODDAU I ALLUOGI MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL

---

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i ddefnyddio £130,000 o'r 'Gronfa Trefniadau Adfer yn sgil Covid19' i ariannu cynlluniau i alluogi cyfarfodydd hybrid a mynediad o bell i gyfarfodydd y Cyngor yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cabinet ar y 6ed o Orffennaf, a'r Cyngor Llawn ar 8fed o Orffennaf fabwysiadau trefniadau dros dro ar gyfer cynnal Cyfarfodydd y Cabinet ynghyd a Phwyllgorau'r Cyngor yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Nodwyd fel rhan o'r trefniadau fod y Cyngor yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn unig ar hyn o bryd. Eglurwyd y gall cyfarfodydd yn y dyfodol fod yn gyfuniad o rhithiol yn unig neu yn gyfuniad o gyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal mewn lleoliad gyda rhai yn mynychu o bell. Mynegwyd fod gofynion y Ddeddf yn glir y bydd yn rhaid sicrhau fod modd i rai sy'n dymuno mynychu o bell.

Amlygwyd fod y gwaith hwn wedi ei sefydlu i yrru'r datblygiadau angenrheidiol i'r dechnoleg yn y siambrau er mwyn cynnig cyfarfodydd hybrid i sicrhau mynediad o bell yn hwylus, ac yn ateb gofynion mynediad i'r cyhoedd a'r wasg.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 27 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 11 Awst 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 7:UNED 2A PARC BUSNES ERYRI, PENRHYNDEUDRAETH

---

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i ddefnyddio £83,000 o'r 'Gronfa Trawsffurfio' i wireddu addasiadau i adeilad Uned 2a, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth er mwyn hwyluso cyswllt rhwng yr Adran Oedolion â'r gwasanaethau Iechyd a chreu 'Siop Gwynedd' i wasanaethu trigolion yr ardal.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Eglurwyd ar gyn o bryd fod yr Uned yn cael ei ddefnyddio fel canolfan alwadau'r Cyngor, 3 ystafell hyfforddi a Deintyddfa Bupa. Cyn y pandemig, roedd y nifer o staff oedd wedi ei leoli ym Mhenrhyndeudraeth wedi lleihau. Nodwyd fod y pandemig yn ogystal wedi cynyddu'r cyfle i weithio yn hyblyg o adref. Bellach, amlygwyd mai dim ond 12 o staff ac Arweinydd Tîm fydd wedi eu lleoli yn y ganolfan alwadau ar un adeg.

Mynegwyd fod galw cynyddol wedi bod ar gyfer 'drws ffrynt' i wasanaethau'r Cyngor yn yr ardal. Yn ogystal â hyn, nodwyd fod rhai o staff yr Adran Oedolion yn cydweithio'n agos ac yn gyson gyda'r Gwasanaeth Iechyd ac wedi datgan dymuniad i gael lleoliad swyddfa a fyddai o bellter rhesymol i Ysbyty Alltwen.

Felly, er mwyn uchafu'r defnydd posib o asedau'r Cyngor ble mae'r galw, nodwyd fod y cynlluniau arfaethedig wedi eu paratoi er mwyn addasu'r adeilad.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol ynghyd a'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 27 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 11 Awst 2021 |

**PWNC**

Eitem 8:CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 i fynd i gyfnod ymgynghori cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2021.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd ei bod yn ofynnol, o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013), ac i gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, i bob Awdurdod Addysg Leol i bartio a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Gymraeg o fewn yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf, yn ogystal â'r prif amcanion strategol dros y cyfnod hwn.

Noda Llywodraeth Cymru fod angen ymgynghori am ddim llai nag 8 wythnos gydag amrywiol awdurdodau, ysgolion a sefydliadau addysg, Partneriaethau ynghyd ac unrhyw bersonau neu gyrff eraill ar y Cynllun Strategol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad..

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 27 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 11 Awst 2021 |

## PWNC

Eitem 9:ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

## PENDERFYNIAD

Nodwyd y gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2020/21 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod pob Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'n briodol fod y Cabinet yn derbyn y wybodaeth am waith y Bwrdd. Nodwyd fod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi ariannu gweithgareddau sylweddol drwy ddyfarnu cyllid grant rhanbarthol, megis y Gronfa Gofal Integredig.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 27 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 11 Awst 2021 |

**PWNC**

Eitem 10:GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS : RHEOLI CŴN

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â rheoli cŵn ledled y sir yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig a atodir ar y sail eu bod yn fodlon bydd y prawf o dan adran 59 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 wedi ei gwrdd.

Cymeradwywyd costau un tro o £30,500 i gyflwyno GDMC, ynghyd â £67,620 o gyllideb refeniw ychwanegol un tro eleni o'r Gronfa Trawsffurfio. Hefyd, cadarnhau'r flaenoriaeth gan fyddai'r gweithrediad yn cyfarch blaenoriaethau pobl Gwynedd a rhagfarnu 'bid' am £75,620 o gyllideb refeniw parhaol ychwanegol yng nghyllideb 2022/23.

Awdurdodwyd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i ymgymryd â chyflwyno'r GDMC.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Swyddogaeth Awdurdodau Lleol a neb arall yw creu GDMC. Yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod Lleol, mae creu gorchymyn o'r fath yn swyddogaeth weithredol a'r Cabinet sy'n gyfrifol amdani.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Bu i ymgynghoriad cyhoeddus gael ei chynnal rhwng 24 Mai 2021 a 21 Mehefin 2021 ac roedd y sylwadau a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.